

Grŵp Cyngkori ar Bysgodfeydd Morol Cymru (WMFAG)

Nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd lau 5 Rhagfyr 2019, Yn Ystafell Trawscoed, Swyddfa Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn rhwng 10am a 4pm.

YN BRESENNOL
Nick O'Sullivan, Cadeirydd Grŵp Cyngkori ar Bysgodfeydd Morol Cymru
Jim Evans, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
John O'Connor, Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru
Kevin Denman, Cymunedau Pysgota De a Gorllewin Cymru
Dean Parry, Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion
Tabea Wilkes, Cyswllt Amgylchedd Cymru
Siôn Williams, Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn
James Wilson, MSFOMA
Brett Garner, Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn
Mark Roberts, Cwmni Cydweithredol Pysgotwyr Gogledd Cymru
Gareth Bevington, Dirprwy Cyfarwyddwr Pysgodfeydd Morol a Rhyngwladol, Llywodraeth Cymru
Julian Bray, Prif Swyddog, Gweithrediadau Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru
Colin Charman, Uwch-gynghorydd Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru
Elen King, Arweinydd Tîm, Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Busnes y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru
Mike Jones, Rheolwr Polisiâu Pysgodfeydd Morol
Mark Bloomfield, Rheolwr Prosiect Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, Llywodraeth Cymru
Bekah Cioffi, Pennaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru
Hilary Evans, Rheolwr Busnes, Arian a Chyfathrebu

1	Croeso ac Ymddiheuriadau: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Carwyn Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Holly Whitely ac Emma Wootton Seafish Roedd Gill Bell yn methu dod (Tabea yn cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru). Roedd Trevor Jones yn methu dod (James Wilson wedi dod yn ei le)
2	Cyflwyniad – cynnydd ers y cyfarfod diwethaf: Rhoddodd Gareth ddiweddariad byr

	<p>Brexit – mae Brexit yn parhau i beri heriau, ac mae'r Is-adran yn cynllunio ar gyfer tri phrif senarios, wrth aros am ganlyniad yr etholiad. Ni waeth beth fo'r sefyllfa wleidyddol, mae Cymru yn parhau i fod yn aelod-wladwriaeth. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal â'r Gweinidog cyn y cyngor ar 16/17 Rhagfyr. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau'r cytundeb gorau posibl ar gyfer Cymru.</p> <p>Mae heriau mewn perthynas â <u>Rheoli a Gorfodi</u> yn parhau i fod, ond mae cryn waith yn cael ei wneud – sy'n cael ei drafod yn eitem ** yn yr agenda.</p> <p><u>Deddfwriaeth Ddomestig</u> – rydym wedi ymrwymo yn gryf i'r Agenda Ddomestig ac yn bwrw ymlaen â hi. Bydd ymgynghoriad ar reoli pysgodfeydd cregyn moch yn cael ei lansio yn gynnar ym mis Ionawr. Bydd yr ymgynghoriad yn adeiladu ar ymgynghoriad blaenorol, ac yn canolbwyntio ar awdurdodiadau/trwyddedau a'r ffordd rydym yn gosod capiau. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am wyth wythnos.</p> <p>Mae angen i <u>Fil Pysgodfeydd y DU</u> fod ar waith erbyn diwedd 2020. Os yw'r Prif Weinidog presennol yn dychwelyd bydd y Frenhines yn gwneud araith ar 19 Rhagfyr y mae'n debyg y bydd yn cyflwyno nifer o filiau yn gyflym. Mae'n debyg y bydd y Bil Pysgodfeydd yn cael ei gyflwyno yn ail hanner y flwyddyn.</p> <p><u>Paratoi ar gyfer Ymadael heb Gytundeb</u> – mae Cymru wedi paratoi cystal ag y bo modd. Fodd bynnag, rydym yn parhau i weithio ar faterion sy'n gysylltiedig thystysgrifau iechyd a mannau archwilio ar ffiniau. Mae Rheoli a Gorfodi yn parhau i fod yn heriol, yn dibynnu ar a oes cytundeb parhad. Lleisiodd aelodau bryderon ynghylch darpariaeth y tu allan i oriau a goblygiadau cost ar gyfer archwiliadau milfeddygol, gan nodi y gallai tystysgrifau gostio tua £80 yr un.</p> <p>Mae angen trwydded gweithredu busnes bwyd er mwyn cael Tystysgrif Iechyd Allforio. Dywedodd Jim fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cytuno i ddarparu cyngor ac arweiniad clir mewn perthynas â chofrestru fel gweithredwr busnes bwyd. Dywedodd James fod angen cysondeb rhwng Pysgodfeydd ac Amaethyddiaeth a'r holl gynhyrchwyr cynnyrch cynradd. Cytunodd Gareth i drafod canllawiau ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd â chydweithwyr yn y sector amaethyddiaeth.</p> <p>Dywedodd Gareth wrth yr aelodau y byddai Dirprwy Gyfarwyddwr newydd Is-adran y Môr a Physgodfeydd yn cael ei gyhoeddi'r wythnos nesaf. [Cadarnhawyd bellach mai Michael Dowell fydd y Dirprwy Gyfarwyddwr newydd. Ar hyn o bryd mae Michael yn arwain y tîm morol a physgodfeydd yng Nghynrychiolaeth y DU i'r EU ym Mrwsel].</p> <p>Cam Gweithredu 1: Cofrestru gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'r angen i hysbysu pob cynhyrchwr cynnyrch cynradd – Gareth i drafod â chydweithwyr yn y sector amaethyddiaeth. Bethan</p>
<p>3</p>	<p>I) Cymeradwyo'r nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi Diwygiad: Tudalen 2, diwygio geiriad Cam Gweithredu 9. Diwygiad: Tudalen 4, diwygio'r geiriad yn yr ail baragraff. Cymeradwywyd y cofnodion.</p> <p>II) Y cynnydd a wnaed ar y Camau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf</p> <p>Adroddodd Julian ar y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu cwblhau.</p> <p>Cam Gweithredu 6 – Cylch Gorchwyl wedi'i lofnodi ar y dydd gan Siôn Williams, Brett Garner a Mark Roberts. Cafodd e-bost yn cymeradwyo'r Cylch</p>

	<p>Gorchwyl ei dderbyn gan Sean Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Bellach wedi'i gwblhau.</p> <p>Cam Gweithredu 8 – Nid yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn un o amodau'r drwydded – dim ond ar gyfer deddfwriaeth y mae angen un. Gofynnodd Jim a oedd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i orfodi cychod <10m o gofnodi dalfeydd yn electronig. Mae angen rhagor o eglurhad.</p> <p>Cam Gweithredu 2: Julian i wirio gyda Lisa Barnwell a yw deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i orfodi cychod <10m i gofnodi dalfeydd yn electronig. Julian</p>
4	<p>Canlyniadau'r Ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd – Elen King</p> <p>Diolchodd Elen i bawb am eu mewnbwn i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd 57 ymateb gan y gwahanol rannau o'r sector. Bydd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn gwneud datganiad yn y Flwyddyn Newydd, ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Y cam nesaf yw datblygu polisiau ar gyfer pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol. Gofynnodd Elen am farn yr aelodau ynghylch y broses ar gyfer cyd-lunio polisiau ar gyfer pysgodfeydd yn y dyfodol, a sut i gynyddu'r ymgysylltu â'r diwydiant cymaint ag y bo modd.</p> <p>Dyma'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth:</p> <p><u>Teitl yr ymgynghoriad</u></p> <p>Roedd yr aelodau'n teimlo bod angen i deitl yr ymgynghoriad adlewyrchu Pysgodfeydd yn y Dyfodol, yn hytrach na Brexit, er mwyn ennyn diddordeb pobl yn well. Roedd yr ymgynghoriad yn rhy eang ac roedd aelodau'n teimlo ei bod yn anodd gwneud sylwadau. Roedd pysgotwyr yn boddi yn yr holl wybodaeth am Brexit, ac nid oeddent yn cysylltu'r ymgynghoriad â pholisiau ar gyfer pysgodfeydd yn y dyfodol. Eglurodd Elen y bydd y cam nesaf o'r ymgynghoriad yn bwysig ac yn trafod materion yn fanylach.</p> <p>Cydnabu Gareth fod y teitl yn amwys. Aeth y ei flaen i egluro bod angen seilio'r broses o ddatblygu polisiau ar dystiolaeth gadarn. Bydd yr ymgynghoriad cychwynnol, cyffredinol yn cael ei ddilyn gan naratif manylach i lywio datganiadau polisi a'r deddfwriaeth gysylltiedig.</p> <p>Trafododd yr aelodau gam nesaf y broses a chadarnhau eu bod yn hapus i wneud sylwadau ar ddrafftiau cyn ymgynghori, gyda'r posibilrwydd o grŵp gorchwyl a gorffen yn helpu gyda'r drafftio. Awgrymodd Mark fod angen cynllun symlach ac iddo amserlen â ffocws.</p> <p>Dywedodd aelodau ei bod yn bwysig ystyried ymgynghoriadau blaenorol ac ystyried problemau a phethau sy'n rhwystro cyflawni.</p> <p>Cadarnhaodd aelodau mai adeg orau'r flwyddyn ar gyfer ymgysylltu â'r diwydiant pysgota yw rhwng yr hydref hwyr a chynnar yn y gwanwyn.</p> <p>Awgrymodd aelodau fod Facebook yn fwy poblogaidd na Twitter ar gyfer postiau cyfryngau cymdeithasol.</p>

<p>5</p>	<p>Rheoli a Gorfodi</p> <p>Cadarnhaodd Gareth fod hysbysebion recriwtio bellach yn fyw, ac y byddai diwrnodau agored yn cael eu cynnal, gan ddechrau ar 9 Rhagfyr.</p> <p>Roedd aelodau'n falch o glywed bod perchnogion cychod o Wlad Belg wedi cael eu herlyn yn llwyddiannus.</p> <p>Soniodd Siôn am adroddiadau am bysgota anghyfreithlon. Galwodd aelodau i gamau gael eu cymryd yn erbyn yr unigolion hyn sy'n pysgota'n anghyfreithlon. Mae potsio yn effeithio ar y farchnad ac enw da'r diwydiant.</p> <p>Bu trafodaeth am blismona potsio a gwaeth aelodau nifer o awgrymiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Dywedodd aelodau unwaith eto eu bod yn fodlon helpu Llywodraeth Cymru wrth ddarparu gwybodaeth am weithgareddau anghyfreithlon, y tywydd a'r llanw er mwyn helpu. - Gallai swyddogion pysgodfeydd fynychu cyfarfodydd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru i gael gwybodaeth. - Rhagor o swyddogion pysgodfeydd ar batrôl ac ymweliadau â bwytai/gwersyllfeydd ac ati. - Awgrym ar gyfer posteri gwrth-botsio, isafswm maint glanio, rheoliadau. <p>CAM GWEITHREDU: Gorfodi</p> <ul style="list-style-type: none"> - Awgrym i gyhoeddi'r camau gorfodi a gymerwyd. CAM GWEITHREDU: Gorfodi - Awgrym ar gyfer cynllun prosiect 'Offer i mewn offer allan' wedi'i gysylltu â'r System Monitro Cychod fel dull gwylidwriaeth – Jim i rannu papur. CAM GWEITHREDU: Jim <p>Rhoddodd Gareth sicrwydd i'r grŵp fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau adnodd ychwanegol ac yn datblygu model gweithredu newydd a fydd yn gwneud gorfodi yn fwy ymatebol.</p> <p>Cam Gweithredu 3: Posteri gwrth-botsio i gael eu rhoi o amgylch gwersyllfeydd, safleoedd glanio ac ati. Gorfodi</p> <p>Cam Gweithredu 4: Cyhoeddi'r camau gorfodi a gymerwyd. Gorfodi</p> <p>Cam Gweithredu 5: Jim i rannu papur ar 'Offer i mewn offer allan'. Jim Evans</p>
<p>6</p>	<p>Polisiâu a Rheoli Pysgodfeydd Domestig</p> <p>Rhoddodd Julian ddiweddariad, gan ddweud bod y tîm yn gweithio'n dda ac yn gwneud cynnydd da. Bydd yr ymgynghoriad ar gregyn moch yn cael ei lansio ym mis Ionawr, gyda gwaith ymgysylltu ar yr un pryd drwy grŵp gorchwyl a gorffen.</p> <p>Awgrymodd Mark ystyried mesurau gofodol. Eglurodd Colin mai'r cam cyntaf yw sicrhau bod deddfwriaeth sylfaenol ar waith. Wedyn gellir edrych ar fesurau rheoli penodol yn y dyfodol. Gallai'r grŵp gorchwyl a gorffen edrych ar y mesurau hyn yn y flwyddyn newydd.</p>

	<p>Eglurodd Julian fod cregyn bylchog wedi dioddef oherwydd y ffocws ar gregyn moch. Fodd bynnag, mae'r broses o gynnal yr ymgynghoriad ar gregyn moch wedi dysgu gwersi a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.</p> <p>Manylion dalfeydd Pysgodfa Gocos y Tair Afon – mae Andy a Jane wedi gwneud llawer o waith ymgysylltu â'r diwydiant.</p> <p>Y prosiect rheoli cocos – mae cynnydd strategol bwysig yn cael ei wneud, ond oherwydd gwaith ar Brexit, ni chyflwynir deddfwriaeth y flwyddyn nesaf. Mae goblygiadau arwyddocaol yn bosibl ar gyfer masnachu cocos, yn dibynnu ar ganlyniad Brexit.</p> <p>Tynnodd James sylw at oblygiadau gadael heb gytundeb ar fasnach. Dywedodd hefyd fod ardal cregyn gleision Chwitfordd wedi cael ei hisraddio o B i C, ac y byddai hyn yn cael effaith ar fasnach. Cafwyd y wybodaeth hon gan Stuart Thomas, CNC.</p> <p>Asesu Pysgodfeydd Cymru. Roedd gwaith a gasglwyd drwy waith ar lawr gwlad ym Mae Ceredigion yn helpu i lywio'r ymgynghoriad. Dywedodd Jim fod rhanddeiliaid wedi bod yn gadarnhaol ynghylch y gwaith ymgysylltu cyn arolwg.</p> <p>Bydd ymgynghoriad ar Reoli Pysgodfeydd yn cael ei gynnal yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.</p>
7	<p>Polisiau Pysgodfeydd Rhyngwladol – Mike Jones</p> <p>Rhododd Mike Jones ddiweddariad ar ddyraniadau cwota cychwynnol a chyfnewidiadau dilynol wedi eu gwneud er mwyn glanio cwotâu uwch. Mae hyn wedi caniatáu i gychod o dan 10m bysgota am bob rhywogaeth sy'n fasnachol bwysig tan ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>Ceisiwyd cwota ychwanegol ar gyfer stociau morgathod a lledod ym Môr Iwerddon a Môr Hafren. Gwnaethom lwyddo i gael cwota ychwanegol ar gyfer penfreision, ond mae'r diddordeb wedi bod yn isel. Rydym yn monitro lledod chwithig a morgathod lle mae'r diddordeb gan gychod o dan 10m o Gymru wedi bod yn <70% ar gyfer lledod chwithig a 60% ar gyfer morgathod.</p> <p>Mae'r cwotâu sydd wedi cael eu dyrannu i gychod o Gymru wedi cael eu cynyddu'n sylweddol dros y tair mis diwethaf i annog diddordeb.</p> <p><u>Cynigion ar gyfer 2019</u></p> <p>Mae ICES wedi cynhyrchu eu cyngor ar gyfer 2020 ar y prif rywogaethau masnachol, ac mae'r sefyllfa gyffredinol ar gyfer Cymru yn ffafriol. Bydd llawer yn dibynnu ar y trafodaethau terfynol yn y Cyngor ym mis Rhagfyr, ond dyma'r canlyniadau sy'n debygol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cynnydd ar gyfer lledod chwithig, lledod coch a hadogiaid (yn VIIa)• Yr un cwotâu ar gyfer morgathod a draenogiaid y môr• Gostyngiad ar gyfer penfreision, morleision a gwyniaid môr <p>Yn ôl pob golwg mae'r wyddoniaeth ynglŷn â <u>draenogiaid y môr</u> yn gadarnhaol ac yn cefnogi lleihau cyfyngiadau.</p>

	<p>Y broblem o ymgeiswyr newydd yn methu cael trwydded oherwydd diffyg 'hanes profedig'. Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar drwyddedau.</p> <p>Roedd aelodau o blaid datblygu deddfwriaeth ar gyfer peidio â chymryd ieir wyog.</p> <p>Awgrymwyd rhoi eitem ar yr agenda i drafod pob agwedd ar Drafodaethau Rhyngwladol, gan gynnwys polisi a masnach. CAM GWEITHREDU: Julian</p> <p>CAM GWEITHREDU 6: Trafodaethau Rhyngwladol i fod yn eitem sefydlog ar agendâu'r dyfodol. Julian</p>
8	<p>Offer Pysgota sydd wedi dod i ddiwedd ei oes – Mark Bloomfield</p> <p>Rhoddodd Mark Bloomfield y diweddaraf i'r tîm ar y gwaith sy'n cael ei wneud i edrych ar ymchwil ar sail tystiolaeth i offer pysgota sydd wedi dod i ddiwedd ei oes.</p> <p>Cafodd y cysylltiad rhwng rheoli offer pysgota a'r broblem ehangach o sbwriel môr ei drafod yng nghyfarfod y Bartneriaeth Moroedd Glân a gynhaliwyd ym mis Tachwedd.</p> <p>Mae offer pysgota sydd wedi dod i ddiwedd ei oes wedi cael ei gynnwys yn yr adolygiad o'r Cynllun Gweithredu ar Ysbwriel môr. Bydd y cynllun diwygiedig yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos.</p> <p>Mae swyddogion yn gweithio gyda'r diwydiant i gynnal adolygiad ar sail tystiolaeth o'r offer pysgota sy'n cael ei ddefnyddio gan fflyd Cymru. Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei defnyddio i ddatblygu strategaeth i reoli offer pysgota yng Nghymru sydd wedi dod i ddiwedd ei oes.</p> <p>Y bwriad yw llunio adroddiad o fewn 3–6 mis sy'n cynnwys rhestr o offer pysgota fflyd Cymru, a nodi cyfleoedd ar gyfer ailgylchu offer.</p> <p>Trafodwyd y problemau mewn perthynas ag ailgylchu potiau, ac awgrymodd aelodau fod angen astudiaethau dichonoldeb.</p> <p>Cafodd ailgylchu rhwydi ei drafod gan aelodau, gan gynnwys yr angen i gasglu tystiolaeth ynghylch lle mae rhwydi/rhaffau yn cael eu defnyddio, ac ymarferoldeb cael rhwydi i Plymouth i gael eu hailgylchu.</p> <p>Gwnaeth aelodau sylwadau ar y problemau ar gyfer pysgotwyr mewn perthynas â chyfrifoldeb am sgipiau mewn porthladdoedd, gan arwain at broblemau gyda thipio anghyfreithlon. Soniodd Dean am ddigwyddiad lle roedd rhaid iddo fe dalu i gael gwared ar rwyd yr oedd yntau wedi ei thynnu o'r môr. Nid yw'r anawsterau wrth waredu yn annog pysgotwyr i dynnu offer a gollwyd.</p> <p>Nododd Kevin ei bod yn hanfodol i borthladdoedd, marinas ac awdurdodau lleol chwarae eu rhan er mwyn datrys y broblem o gael gwared ar offer pysgota.</p> <p>Awgrymodd aelodau y dylid ehangu'r prosiect ymchwil i gynnwys gwaredu ar ysbwriel ac offer sydd wedi dod i ddiwedd ei oes, seilwaith a chyfleusterau llongau, ac ymuno â gweddill yr Is-adran, e.e. EMFF (Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Hefyd mae angen i'r astudiaeth asesu'r lle mwyaf cyfleus ar gyfer casglu monofilament.</p> <p>Nododd aelodau y byddai'n werth chweil cael gwybod beth mae gweddill y DU yn ei wneud.</p>

	<p>Dywedodd Jim fod y Grŵp Gorchwyl y Gorffen yn cwrdd yng nghanol mis Ionawr.</p> <p>Dywedodd Jim wrth y grŵp fod Seafish yn ysgrifennu canllawiau ymarfer i'w dosbarthu.</p>
9	<p>Gwyddoniaeth Pysgodfeydd – Bekah Cioffi</p> <p>Cyflwynodd Bekah ei hun i'r grŵp, a rhoi trosolwg o waith y tîm Gwyddoniaeth Pysgodfeydd y mae hi'n ei arwain, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">- Cynnal Gwyddoniaeth Pysgodfeydd Gweithredol (agor a chau pysgodfeydd);- Darparu Cyngor Gwyddoniaeth-Polisi (ymadael â'r UE, polisi pysgodfeydd, trafod cwotâu, Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol, Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd a goddefebau/eithriadau);- Ymdrin â bylchau mewn Gwyddoniaeth a Thystiolaeth Pysgodfeydd (contractio a chydlynu'r dasg o gasglu data am bysgodfeydd morol a safleoedd pysgota â blaenoriaeth yng Nghymru);- Mynychu Fforymau Perthnasol yn ymwneud â Gwyddoniaeth a Thystiolaeth Pysgodfeydd (er mwyn sicrhau bod anghenion tystiolaeth Cymru yn cael eu cynrychioli'n rhanbarthol, ar lefel y DU ac yn rhyngwladol). <p>Bydd y gangen newydd yn canolbwyntio ar ddatblygu Cynllun Tystiolaeth Pysgodfeydd sy'n cyd-fynd â Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru 2019–2025 a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a sefydlu Fframwaith Contract Tystiolaeth.</p> <p>Mae tîm Bekah yn datblygu trosolwg tymor hir o'r cyfleoedd pysgota sy'n ehangu a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, i sicrhau bod y wyddoniaeth a'r dystiolaeth pysgodfeydd briodol ar gael pan fydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisiau a gwneud penderfyniadau.</p> <p>Amlinellodd Bekah rywfaint o'r gwaith arolygu a oedd yn cael ei gynnal a'i gynllunio i nodi bylchau tystiolaeth ac yn y pen draw ddatblygu cynllun Tystiolaeth Pysgodfeydd.</p> <p>Mae Paul a Greta yn cynnal arolygon o bysgodfeydd cocos. Maent yn edrych ar adolygu'r model bwyd-adar a allai sicrhau bod gwelyau'n aros ar agor am gyfnod hwy os nad oes angen cymaint o fwyd ar adar.</p> <p>Llanfairfechan – Gweithredwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i gadw gwelyau ar gau am flwyddyn arall er mwyn deall sensitifrwydd y stoc a chyllyll môr.</p> <p>Amlinellodd Bekah ychydig am y gwaith arolygu sy'n mynd rhagddo ar y cyd â Phrifysgol Bangor ar ddraenogiaid y môr a chimychiaid. Mae Cefas yn edrych ar belagig bach fel rhan o'r Arolwg Celtaidd, ac yn estyn hwnnw i ddyfroedd Cymru.</p> <p>Bydd astudiaethau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd o diwna asgell las, sy'n cael eu harwain gan Cefas ac yn cynnwys tagio tiwna, yn edrych ar geneteg a deall yn well eu symudiadau a'u gweithgareddau. Bydd y gwaith tagio'n cael ei gynnal unwaith eto y flwyddyn nesaf ar y cyd ag ymchwil gan Loegr.</p> <p>Rhododd Bekah fanylion y gwaith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gydag CNC i adrodd ar fylchau tystiolaeth allweddol, i lywio Cynllun Tystiolaeth Pysgodfeydd. Bydd dadansoddi manylach o'r bylchau tystiolaeth yn cael ei gynnal yn y flwyddyn newydd.</p>

	<p>Awgrymodd aelodau y byddai adroddiadau presennol yn helpu gyda'r bylchau n tystiolaeth:</p> <ul style="list-style-type: none">- Mae gan Marion Warlow lawer o adroddiadau ar asesiadau stoc ar gyfer Bae Ceredigion.- Cafodd Prifysgol Shetland eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnar ymchwil rai blynyddoedd yn ôl – bydd adroddiad gan Greta.- Bydd hefyd gan Barry Thomas, pysgotwr yn Abertawe, lawer o wybodaeth ddefnyddiol.- Dylai fod gan Carl Davies a Natalie ym Mangor wybodaeth am grancod brown a chimychiaid.- Cynhaliodd Scott Walker (Cefas) astudiaeth taflu a goroesi. <p>Gwnaeth aelodau ailadrodd eu cefnogaeth i wyddoniaeth, gan gynnig darparu gwybodaeth am leoliadau pysgod, ac i wyddonwyr/ymchwilwyr fynd allan ar eu cychod.</p> <p>Cam Gweithredu 7: Bekah i drafod gwaith arolygu posibl â Colin, Brett, Mark, Kevin a Jim. CAM GWEITHREDU: Bekah</p>
10	<p>Eitemau er gwybodaeth ac unrhyw faterion eraill</p> <p>Drafodwyd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, a chytunwyd i symud y dyddiad ym mis Rhagfyr o'r 2^{il} i'r 3^{ydd}, gan nad yw Holly Whiteley yn gallu dod ar 2 Rhagfyr. Cytunodd aelodau ar y dyddiadau canlynol ar gyfer y cyfarfodydd:</p> <p>12 Mawrth 10 Mehefin 15 Medi 3 Rhagfyr</p> <p>Nid oedd aelodau yn sicr ynghylch gwerth y crynodeb dau dudalen arfaethedig. Cytunwyd y dylid ychwanegu pwyntiau gweithredu at y crynodeb. Cytunodd aelodau i edrych ar y crynodeb nesaf a phenderfynu a yw'n ddefnyddiol iddynt.</p> <p>Cam Gweithredu 8: Pwyntiau gweithredu i gael eu hychwanegu at y crynodeb</p>
	<p>Daeth y cadeirydd â'r cyfarfod i ben.</p>

Camau Gweithredu	
Cam Gweithredu 1: Cofrestru gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'r angen i hysbysu pob cynhyrchwr cynhyrchion cynradd – Gareth i drafod â chydweithwyr yn y sector amaethyddiaeth.	BJ
Cam Gweithredu 2: Julian i wirio gyda Lisa Barnwell a yw ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i orfodi cychod <10m i gofnodi eu dalfeydd yn electronig.	JB
Cam Gweithredu 3: Rhoi posteri gwrth-botsio o amgylch gweryllfeydd, safleoedd glanio ac ati.	Gorfodi
Cam Gweithredu 4: Cyhoeddi camau gorfodi a gymerwyd.	Gorfodi
Cam Gweithredu 5: Jim i rannu papur ar 'Offer i mewn offer allan'.	JE
Cam Gweithredu 6: Rhoi trafodaethau rhyngwladol fel eitem sefydlog ar agendâu'r dyfodol.	JB
Cam Gweithredu 7: Bekah i drafod gwaith arolygu posibl â Colin, Brett, Mark, Kevin a Jim.	BC
Cam Gweithredu 8: Ychwanegu pwyntiau gweithredu at y crynodeb	Ysgrifenyddiaeth